Gwasanaeth Llysoedd
a Thribiwnlysoedd EF

Cyfeirnod (at ddefnydd swyddfa yn unig)

EX160

# Gwneud cais am help i dalu ffioedd

**Os nad oes gennych fawr ddim cynilion, neu ddim cynilion o gwbl, a'ch bod yn cael budd-daliadau penodol neu ar incwm isel, efallai na fydd yn rhaid ichi dalu ffi llys neu dribiwnlys, neu efallai y cewch dalu ffi ostyngol.**

www.gov.uk/help-i-dalu-ffioedd-llysoedd-a-thribiwnlysoedd

## Bydd arnoch angen

Cyn ichi barhau, gwnewch yn siŵr bod gennych:

- eich Rhif Yswiriant Gwladol neu
- eich cyfeirnod y Swyddfa Gartref - efallai bydd gennych gyfeirnod y Swyddfa Gartref os ydych chi'n destun rheolaethau mewnfudo
- rhif ffurflen y llys neu dribiwnlys
- rhif eich achos, rhif eich hawliad neu rybudd i dalu - os oes gennych un

Byddwch hefyd angen manylion eich:

- incwm, gan gynnwys cyflog
- cynilion a buddsoddiadau
- manylion incwm, cynilion a buddsoddiadau eich partner. Os oes gennych bartner, byddwch angen eu rhif yswiriant gwladol, eu dyddiad geni a manylion eu hincwm, cynilion a buddsoddiadau

**Mae angen i'r wybodaeth a roddir gennych fod yn gywir gan y bydd yn cael ei defnyddio fel tystiolaeth ar gyfer eich cais a bydd yn ein galluogi i wirio'r wybodaeth a roddwyd gydag adrannau eraill y llywodraeth. Byddwn yn cysylltu â chi os byddwn angen gweld prawf o'r wybodaeth hon.**

**Gall cynrychiolydd cyfreithiol neu gyfaill cyfreitha wneud cais ar eich rhan. Mae'n rhaid iddynt roi'ch manylion chi yn y cais.**

**Gallwch ddod o hyd i gyfarwyddyd ar sut i wneud cais am help i dalu ffioedd (EX160A) ar-lein yn:**

https://www.gov.uk/government/publications/apply-for-help-with-court-and-tribunal-fees.cy


© Hawlfraint y Goron 2024

**1.** Eich manylion personol (y ceisydd)

Enw cyntaf ac enw(au) canol

Enw olaf

Cyfeiriad

Llinell gyntaf y cyfeiriad

Ail linell y cyfeiriad

Tref neu ddinas

Sir (dewisol)

Cod post

Cyfeiriad e-bost (dewisol)

Dyddiad geni

Diwrnod Mis Blwyddyn

Rhif Yswiriant Gwladol

Cyfeirnod y Swyddfa Gartref (os yw'n berthnasol)

Ni allaf ddarparu rhif Yswiriant Gwladol na chyfeirnod y Swyddfa Gartref oherwydd:

**Rhif Yswiriant Gwladol:** Os yw'r ceisydd o dan 16 oed efallai na fydd ganddynt rif.

**Y Swyddfa Gartref:** Efallai y bydd gennych gyfeirnod y Swyddfa Gartref ac nid rhif Yswiriant Gwladol.

**2.** Beth yw eich statws perthynas?

☐ Sengl. **Ewch i gwestiwn 4**

☐ Wedi priodi neu'n byw â rhywun. Ewch i gwestiwn 3

**3.** Manylion eich partner

Enw cyntaf ac enw(au) canol

Enw olaf

Dyddiad geni

Diwrnod Mis Blwyddyn

Rhif Yswiriant Gwladol

**4.** Ydych chi wedi talu ffi'r llys neu dribiwnlys yn barod?

☐ Naddo

☐ Do, talais y ffi ar

Diwrnod Mis Blwyddyn

**Dewiswch 'Sengl':**

Os ydych chi'n byw ar eich pen eich hun ac yn dibynnu ar eich incwm chi yn unig gyda neu heb blant dibynnol, neu rydych wedi gwahanu'n barhaol ac rydych efallai yn y broses o wneud cais am ysgariad, diddymiad neu ddirymiad ac nid ydych yn byw gyda phartner newydd, neu mae gennych bartner, ond mae ganddynt fudd sy'n gwrthdaro yn yr achos dan sylw

**Dewiswch 'Wedi priodi neu'n byw â rhywun':**

Os ydych wedi priodi neu mewn partneriaeth sifil neu rydych yn cyd-fyw fel pe baech wedi priodi neu mewn partneriaeth sifil neu y mae'n rhaid i chi fyw ar wahân. Gweler nodiadau canllaw EX160A https://www.gov.uk/government/publications/apply-for-help-with-court-and-tribunal-fees.cy

**Manylion eich partner:** Efallai y byddwn yn defnyddio eich gwybodaeth bersonol chi a'ch partner (os oes gennych un) i gysylltu ag adrannau eraill y llywodraeth i ddilysu'r wybodaeth rydych wedi'i rhoi. Bydd hyn yn lleihau'r tebygolrwydd y bydd rhaid i chi ddarparu tystiolaeth bellach cyn y gellir gwneud penderfyniad.

**Ad-daliadau:** Gallwch wneud cais am ad-daliad o ffi a dalwyd yn y 3 mis diwethaf.
Os ydych yn gwneud cais am ad-daliad, atebwch gwestiynau 8 i 13 am eich amgylchiadau ariannol adeg y talwyd y ffi.

**5.** Beth yw rhif ffurflen eich ffurflen llys neu dribiwnlys?

Rhif y ffurflen: Bydd rhif y ffurflen wedi'i nodi ar waelod tu-dalen gyntaf y ffurflen bapur.

Rhif y ffurflen ☐ Enw'r ffurflen ☐

Os nad yw'r ffurflen gennych chi, disgrifiwch y ffi rydych chi'n gwneud cais am help i'w thalu.

☐

**6.** A oes gennych chi rif achos, hawliad, apêl neu 'rhybudd i dalu'?

Rhif achos, hawliad, apêl neu 'rhybudd i dalu': Gallwch ddod o hyd i'r rhif hwn ar lythyrau gan y llys neu dribiwnlys.

- ☐ Nac oes
- ☐ Oes, rhif yr achos, hawliad, apêl neu 'rhybudd i dalu' yw ☐

**7.** Ydych chi'n talu ffi am achos profiant?

Profiant: Gan amlaf mae'r achosion hyn yn ymwneud ag eiddo a meddiannau rhywun sydd wedi marw.

- ☐ Nac ydw
- ☐ Ydw, enw llawn yr unigolyn sydd wedi marw yw ☐

Dyddiad eu marwolaeth

Diwrnod ☐☐ Mis ☐☐ Blwyddyn ☐☐☐☐

**8.** Faint o arian sydd gennych chi a'ch partner, os oes gennych un, wedi'i gynilo a'i fuddsoddi?

Cynilion: Dylech gynnwys manylion eich holl gynilion a buddsoddiadau, megis ISAs neu werth ail gartrefi rydych yn berchen arnynt. Os oes gennych £16,000 neu fwy yna ni fyddwch yn gallu cael help i dalu ffioedd. Darllenwch nodiadau canllaw EX160A https://www.gov.uk/government/publications/apply-for-help-with-court-and-tribunal-fees.cy

- ☐ Llai na £4,250. Ewch i gwestiwn 10
- ☐ Rhwng £4,250 a £15,999. Ewch i gwestiwn 9
- ☐ £16,000 neu fwy. Ewch i gwestiwn 10

**9.** Ydych chi neu'ch partner, os oes gennych un, yn 66 oed neu drosodd?

- ☐ Nac ydw/Nac ydy. Faint o arian sydd gennych chi a'ch partner, os oes gennych un, wedi'i gynilo a'i fuddsoddi?

  **£** ☐

- ☐ Ydw/Ydy

**10.** Ydych chi'n cael unrhyw un o'r budd-daliadau a restrir isod?

- Lwfans Ceisio Gwaith sy'n Seiliedig ar Incwm - nid JSA sy'n seiliedig ar gyfraniadau
- Lwfans Cyflogaeth a Chymorth sy'n Gysylltiedig ag Incwm - nid ESA sy'n seiliedig ar gyfraniadau
- Cymhorthdal Incwm
- Credyd Cynhwysol (ac rydych yn ennill llai na £6,000 y flwyddyn)
- Credyd Pensiwn (credyd gwarant) - nid credyd cynilion

☐ Nac ydw

☐ Ydw. Ewch i gwestiwn 14

**Budd-daliadau:** Os ydych chi'n cael unrhyw un o'r budd-daliadau hyn, yna rydych yn debygol o gael help i dalu ffioedd.

Byddwn yn defnyddio'ch gwybodaeth i gysylltu â'r Adran Gwaith a Phensiynau i gadarnhau eich bod chi (neu yr oeddech chi) yn cael un o'r budd-daliadau hyn. Os na allwn wirio hynny, efallai y bydd angen i chi ddarparu tystiolaeth eich bod chi (neu yr oeddech chi) yn cael un o'r budd-daliadau hyn.

**11.** A oes gennych chi neu'ch partner, os oes gennych un, blant sy'n byw gyda chi, neu blant rydych chi'n eu cynnal yn ariannol?

☐ Nac oes

☐ Oes. Dywedwch wrthym faint o blant sydd gennych ar gyfer pob ystod oedran.

☐ 0–13 oed

☐ 14 oed a hŷn

Plant: Y diffiniad o blentyn yw unigolyn o dan 16 oed a hyd at 19 oed mewn addysg llawn amser sy'n byw gyda chi, neu unrhyw blentyn sy'n cael cefnogaeth ariannol rheolaidd drwy gytundeb cynhaliaeth.

Os bu ichi ateb 'Oes' i gwestiwn 11, sicrhewch fod unrhyw Fudd-dal Plant, Credyd Treth Plant neu gytundebau cynhaliaeth incwm ar eu cyfer wedi'u cynnwys yng nghwestiwn 12 a 13.

**12.** Ticiwch bob math o incwm rydych chi a'ch partner, os oes gennych un, wedi'i gael yn y mis calendr diwethaf.

Os nad yw eich incwm am y mis diwethaf yn gynrychioladol o beth rydych yn ei gael fel arfer, gallwch ddarparu cyfartaledd o'ch incwm am y 3 mis diwethaf os yw'r ffigur hwnnw'n is. Os felly, ticiwch bob math o incwm ar gyfer y cyfnod hwnnw.

| Fy incwm i | Incwm fy mhartner | |
|---|---|---|
| ☐ | ☐ | Cyflog |
| ☐ | ☐ | Elw net o swyddi hunangyflogedig |
| ☐ | ☐ | Budd-dal Plant |
| ☐ | ☐ | Credyd Treth Gwaith |
| ☐ | ☐ | Credyd Treth Plant |
| ☐ | ☐ | Taliadau Cynhaliaeth |
| ☐ | ☐ | Lwfans Ceisio Gwaith sy'n seiliedig ar Gyfraniadau (JSA) |
| ☐ | ☐ | Lwfans Cyflogaeth a Chymorth sy'n seiliedig ar Gyfraniadau (ESA) |
| ☐ | ☐ | Credyd Cynhwysol |
| ☐ | ☐ | Pensiynau (gwladol, gwaith, preifat a Chredyd Pensiwn (credyd cynilion) |
| ☐ | ☐ | Rhent gan unrhyw un sy'n byw gyda chi |
| ☐ | ☐ | Rhent o unrhyw eiddo arall rydych yn berchen arno |
| ☐ | ☐ | Rhoddion ariannol - dylech gynnwys taliadau un-tro |
| ☐ | ☐ | Cefnogaeth ariannol gan eraill - dylech gynnwys pob taliad un-tro |
| ☐ | ☐ | Benthyciadau |
| ☐ | ☐ | Incwm arall – Er enghraifft, incwm o werthu nwyddau ar-lein neu o ddifidendau neu daliadau llog. |
| ☐ | ☐ | Dim un o'r uchod |

**Nodyn 12:** ni ddylid cynnwys rhai budd-daliadau fel incwm, megis Lwfans Gofalwr, Taliad Annibyniaeth Personol, Budd-dal Tai ac elfennau o gredyd treth gwaith a chredyd treth plant.

Darllenwch nodiadau canllaw EX160A https://www.gov.uk/government/publications/apply-for-help-with-court-and-tribunal-fees.cy

**13.** Beth oedd eich incwm chi a'ch partner, os oes gennych un, ar gyfer y mis calendr diwethaf?

Os nad yw eich incwm am y mis diwethaf yn gynrychioladol o beth rydych yn ei gael fel arfer, gallwch ddarparu cyfartaledd o'ch incwm am y 3 mis diwethaf os yw'r ffigur hwnnw'n is.

**£**

Y ffigur uchod yw

☐ incwm ar gyfer y mis calendr diwethaf, neu

☐ incwm ar gyfartaledd dros 3 mis

**Nodyn 13:** Os yw eich incwm yn cynnwys cyflog, rhowch y ffigur cyn didyniadau treth ac Yswiriant Gwladol.

## 14. Datganiad gwirionedd

☐ Fi yw'r **ceisydd neu'r cyfaill cyfreitha** sy'n llenwi'r ffurflen hon. Rwy'n credu bod fy amgylchiadau ariannol presennol i/amgylchiadau ariannol presennol y ceisydd yn golygu efallai y byddaf i/bydd y ceisydd yn gymwys i gael help i dalu ffioedd. Rwy'n datgan bod yr wybodaeth a roddwyd gennyf ar y ffurflen hon yn gywir ac yn gyflawn. Rwy'n deall y gellir dwyn achos troseddol neu sifil yn fy erbyn os byddaf wedi rhoi gwybodaeth ffug. Rwy'n deall y gellid gwrthod fy nghais/y cais os wyf wedi rhoi gwybodaeth ffug neu os nad wyf yn darparu tystiolaeth ar gyfer yr wybodaeth a roddwyd yn y ffurflen hon, os gofynnwyd am hynny, a bydd y ffi lawn yn daladwy.

☐ Fi yw'r **cynrychiolydd cyfreithiol** sy'n llenwi'r ffurflen hon. Mae'r ceisydd yn credu bod eu hamgylchiadau ariannol presennol yn golygu efallai y byddant yn gymwys i gael help i dalu ffioedd. Mae'r ceisydd yn datgan bod yr wybodaeth a roddwyd ganddynt yn y ffurflen hon yn gywir ac yn gyflawn. Mae'r ceisydd yn deall y gellir dwyn achos troseddol neu sifil yn eu herbyn os byddant wedi rhoi gwybodaeth ffug. Mae'r ceisydd yn deall y gellid gwrthod y cais hwn os ydyw wedi rhoi gwybodaeth ffug neu os nad yw'n darparu tystiolaeth ar gyfer yr wybodaeth a roddwyd yn y ffurflen hon, os gofynnwyd am hynny, a bydd y ffi lawn yn daladwy.

**Llofnod**

☐ Ceisydd

☐ Cyfaill cyfreitha. **Ewch i gwestiwn 15**

☐ Cynrychiolydd cyfreithiol. **Ewch i gwestiwn 15**

**Dyddiad**

Diwrnod Mis Blwyddyn

## 15. Manylion y cyfaill cyfreitha neu'r cynrychiolydd cyfreithiol

Enw cyntaf

Enw olaf

Cyfeiriad

Llinell gyntaf y cyfeiriad

Ail linell y cyfeiriad

Tref neu ddinas

Sir (dewisol)

Cod post

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | | |

Cyfeiriad e-bost (dewisol)

Os yw'n berthnasol, enw'r cwmni a'r swydd a ddelir

Enw'r cwmni

Swydd a ddelir

## Beth i'w wneud nesaf

**Anfonwch eich ffurflen wedi'i llenwi** gyda'ch ffurflen llys neu dribiwnlys i'r llys neu'r tribiwnlys sy'n delio â'ch achos neu'ch hawliad.

Efallai y bydd eich cais am Help i Dalu Ffioedd yn cael ei wrthod os bydd yn cyrraedd yn hwyrach na 28 diwrnod ar ôl y dyddiad pan gafodd ei lofnodi.

Gallwch ddychwelyd eich ffurflen wedi'i llenwi drwy'r post neu e-bost.

Gallwch ddod o hyd i fanylion cyswllt pob llys a thribiwnlys yn: https://www.gov.uk/chwilio-am-lys-neu-dribiwnlys

Mae'r Weinyddiaeth Gyfiawnder a Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EF yn prosesu gwybodaeth bersonol amdanoch chi.

I gael manylion am y safonau rydym yn eu dilyn wrth brosesu'ch data, ewch i: https://www.gov.uk/government/organisations/hm-courts-and-tribunals-service/about/personal-information-charter.cy

Os ydych eisiau copi papur o'r hysbysiad preifatrwydd hwn, ffoniwch 0300 303 5173 Ffôn Testun 18001 0300 123 1024.

Os ydych yn ffonio o'r Alban, ffoniwch 0300 790 6234

Ffôn Testun 18001 0300 790 6234.